Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Grymuso Gwynedd: Canllawiau

*Grymuso Gwynedd: Guidelines*

## Cefndir

*Background*

Pwrpas rhaglen Grymuso Gwynedd yw creu cyfleoedd gwaith, meithrin uchelgais, balchder a sgiliau, dathlu hunaniaeth leol a datblygu gwytnwch cymunedol ar draws y sir. Byddwn yn cyflawni hyn trwy ddwy ffrwd waith, sef;

1. Prosiect Arweinwyr y Dyfodol, sef 6 o gyflogai sy'n llunio tîm deinamig i Cymunedoli Cyf. (rhwydwaith mentrau cymunedol Gwynedd) sy'n tynnu arbenigeddau ynghyd i adeiladu ar y bwrlwm cymunedoli presennol yng Ngwynedd, a;
2. Cefnogaeth ymarferol ac ariannol a arweinir gan Menter Môn Cyf. i adeiladu ar gapasiti datblygu cymunedol ein cymunedau

Rydym am rymuso cymunedau Gwynedd drwy gefnogi'r rheiny sy'n anelu i warchod, cynyddu a dathlu cyfoeth lleol. Bydd y gronfa'n cynnig cefnogaeth ariannol i endidau wireddu prosiectau er budd datblygu cymunedol yng Ngwynedd. Bydd disgwyl i'r prosiectau fanteisio ar a datblygu hunaniaeth, asedau a gwasanaethau unigryw ein hardaloedd, er mwyn cryfhau achos cymunedoli ar draws y sir, a darparu arf i symud ymlaen a datrys heriau ar lawr gwlad.

*Grymuso Gwynedd's purpose is to create job opportunities, foster ambition, pride and skills, celebrate local identity and develop community resilience across the county. We will achieve this through two work streams, namely;*

1. *the Future Leaders project, a team of 6 dynamic individuals employed by Cymunedoli Cyf. (Gwynedd's network of community enterprises) that bring together expertise to build on community provisions spurred on by the existing broad community efforts in Gwynedd, and;*
2. *Practical and financial support led by Menter Môn Cyf. To build the community development capacity of our communities*

*We want to empower Gwynedd's communities by supporting those who aim to protect, increase and celebrate local wealth. The fund will offer financial support to entities to realise project for the benefit of community development in Gwynedd. The projects will be expected to take advantage of and develop the unique identity, assets and services of our areas, to strengthen the community cause across the county, and provide a tool to move forward and solve challenges on the ground.*

## Pwrpas

*Purpose*

Mae Gwynedd yn ardal eang sy'n cynnwys pegynau o safbwynt iaith, daearyddiaeth, cymunedau trefol a gwledig, môr a mynydd, ac mae iddi adnoddau a phobl all gyfrannu at ddatblygu gwytnwch ledled y sir. Bydd rhaglen Grymuso Gwynedd yn caniatáu i Menter Môn Cyf. a Cymunedoli Cyf. ddefnyddio eu harbenigeddau a'u profiadau amgylcheddol, mentergarwch, technoleg, busnes, bwyd, iaith ayyb i rymuso cymunedau ar draws y sir.

Bydd cefnogaeth ariannol y rhaglen hefyd yn ein galluogi i gefnogi prosiectau sy'n ateb gofynion lleol a chynnig datrysiadau i'r gymuned, er mwyn adeiladu capasiti Gwynedd ar draws y sir. Bydd modd cefnogi prosiectau, datrysiadau ac atebion o fewn 3 thema- Hunaniaeth, Gwasanaethau ac Asedau. Bydd y gefnogaeth hon yn cynnig allbwn i ddatblygu egin fentrau, tyfu mentrau presennol a llenwi bylchau mewn mannau daearyddol sydd heb gatalyddion lleol.

Wedi'i yrru gan Ffyniant Bro
Powered by Levelling Up

*Gwynedd is a large area that includes polar opposites in terms of language, geography, urban and rural communities, sea and mountains, but also has resources and people who can contribute to developing resilience throughout the county. The Grymuso Gwynedd program will allow Menter Môn and Cymunedoli Cyf, to use their environmental expertise and experiences in entrepreneurship, technology, business, food, language etc. to empower all Gwynedd communities.*

*The financial support of the program will also enable us to support projects that meet local requirements and offer solutions to the community, to build Gwynedd's capacity across the county. It will be possible to support projects, solutions, and answers within 3 themes- Identity, Services, Assets. This support will offer an output to develop emerging enterprises, grow existing enterprises and fill gaps in geographical areas that do not have any local catalysts or current provision in place.*

## Amcanion

*Objectives*

**Disgwylir i bob prosiect;**

- Creu buddion cymunedol
- Meithrin yr iaith Gymraeg
- Dathlu adnoddau'r gymuned
- Datblygu cymeriad a hynodrwydd bro
- Cefnogi unrhyw fath o weithgaredd neu astudiaeth er budd y gymuned

### 1. Hunaniaeth

Disgwylir i brosiectau Hunaniaeth fod yn;

- Arloesol a chreadigol
- Cefnogi'r economi leol
- Cyflwyno a dehongli hanes, hunaniaeth a straeon bro

### 2. Gwasanaethau

Disgwylir i brosiectau Gwasanaethau;

- Cynnig datrysiadau i gefnogi gwasanaethau sy'n cael effaith ar fywyd pobl o ddydd i ddydd
- Ystyried gwasanaethau sydd mewn peryg o gau/wedi cau, ac effaith hynny ar y gymuned
- Sicrhau fod y gwasanaeth yn unol ag anghenion lleol

### 3. Asedau

Disgwylir i brosiectau Asedau;

- Cynnig atebion amgen i ddatblygu ased ffisegol (brics a mortar) neu ased naturiol (coedlan, afon ayyb) er budd cymunedol
- Adnabod pwrpas amlwg
- Cynnig datrysiad sy'n mynd i'r afael â her gwirioneddol yr ardal honno e.e. beth arall mae'r ardal honno ei hangen, ac os oes modd clymu hynny mewn i'r datrysiad hwn

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

***All projects are expected to;***

- *Create community benefits*
- *Nurture the Welsh language*
- *Celebrate the community's resources*
- *Develop the character and distinctiveness of a locality*
- *Support any type of activity or study for the benefit of the community*

1. ***Identity***

*Identity projects are expected to be;*

- *Innovative and creative*
- *Support the local economy*
- *Presenting and interpreting local history, identity and stories*

2. ***Services***

*Services projects are expected to;*

- *Offer solutions to support services that have an impact on people's lives on a daily basis*
- *Consider services that are in danger of closing/have closed, and the impact on the community*
- *Ensure that the service is in accordance with local needs*

3. ***Assets***

*Assets projects are expected to;*

- *Offer alternative solutions to develop a physical asset (brick and mortar) or a natural asset (woodland, river etc) for community benefit*
- *Identify a clear purpose*
- *Offer a solution that addresses a  real challenge in that area e.g. what else does that area need, and if that can be tied into this solution*

## Cefnogaeth ariannol

*Financial support*

1. Hunaniaeth

Cefnogaeth ariannol hyd at £10,000 (gan gynnwys TAW) fesul prosiect

2. Gwasanaethau

Cefnogaeth ariannol hyd at £10,000 (gan gynnwys TAW) fesul prosiect

3. Asedau

Cefnogaeth ariannol hyd at £15,000 (gan gynnwys TAW) fesul prosiect

1. *Identity*

*Financial support of up to £10,000 (including VAT) per project*

2. *Services*

*Financial support of up to £10,000 (including VAT) per project*

3. *Assets*

*Financial support of up to £15,000 (including VAT) per project*

Cyngor Gwynedd Council · NDA · NRS Nuclear Restoration Services · Wedi'i yrru gan Ffyniant Bro · Powered by Levelling Up

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

**Y broses ymgeisio**

*Application process*

1. Darllen y dogfennau canllawiau a chwestiynau cyffredin
2. Trafod eich syniad prosiect gydag un o swyddogion Menter Môn Cyf.
3. Cwblhau'r ffurflen gais a'i gyflwyno i gwynedd@mentermon.com

Bydd modd i chi dderbyn cefnogaeth swyddogion Menter Môn Cyf. trwy gydol y broses ymgeisio i sicrhau bod eich cais mor gyflawn a chryf â phosib. Bydd cyflogai Cymunedoli Cyf. hefyd yn ymwybodol o'r ceisiadau ac yn medru cydweithio a chynnig cefnogaeth fel sy'n addas.

Bydd ffenestri ymgeisio bob 4-6 wythnos o fis Hydref 2023 ymlaen, nes fydd yr holl gyllideb wedi cael ei ddyrannu. Disgwylir i'r broses gyfan, o drafod eich prosiect i gymeradwyaeth, gymryd 3-6 wythnos.

Bydd angen cwblhau pob prosiect yn llawn erbyn diwedd Medi 2024.

1. *Read the guidance documents and frequently asked questions*
2. *Discuss your project idea with one of Menter Môn Cyf.'s officers*
3. *Complete the application form and submit it to gwynedd@mentermon.com*

*You will receive support from Menter Môn Cyf. officers throughout the application process to ensure that your application is as complete as possible. Cymunedoli Cyf. officers will also be aware of the applications and will be able to collaborate and offer support as appropriate.*

*There will be application windows every 4-6 weeks from October 2023 onwards, until the entire budget has been allocated. The whole process, from discussing your project to approval, is expected to take 3-6 weeks.*

*All projects will need to be completed in full by the end of September 2024.*